S4/C Calon Cenedl
Heart of the Nation

# Cynllun Gwaith S4C ar gyfer 2012

## 1. Cyflwyniad

Dyma Gynllun Gwaith S4C ar gyfer 2012. Mae'r Cynllun yn egluro beth yw blaenoriaethau gwaith S4C ar gyfer 2012. Mae hefyd yn nodi pa fesuryddion fydd yn cael eu defnyddio ar gyfer asesu perfformiad gwasanaethau S4C yn ystod y flwyddyn.

Prif flaenoriaethau'r flwyddyn:

- Darparu gwasanaeth o safon uchel.
- Sicrhau fod ystyriaeth o ofynion y gynulleidfa, a'i barn am wasanaethau S4C, yn greiddiol i'n holl waith, gan gynnwys y gwaith o asesu perfformiad.
- Datblygu'r bartneriaeth newydd gyda'r BBC, a'r berthynas gyda'r sector gynhyrchu annibynnol.
- Sicrhau arbedion pellach yng nghostau S4C er mwyn buddsoddi mwy yng nghynnwys y Sianel.
- Datblygu ein hymwneud â'r cyfryngau digidol newydd.
- Gwneud y gorau o'n cyfleoedd masnachol.

## 2. Cyd-destun

Dyletswydd statudol Awdurdod S4C yw

*"Darparu gwasanaethau rhaglenni teledu o ansawdd uchel gyda'r bwriad iddynt fod ar gael i'w derbyn yn gyfan gwbl neu'n bennaf gan aelodau'r cyhoedd yng Nghymru, a rhaid parhau i ddarparu'r gwasanaeth a ddarperir ar ffurf digidol ac a adnabyddir fel S4C Digidol "* [1]

Gwasanaeth Cymraeg yw S4C, ac mae gan y Sianel gylch gorchwyl ieithyddol benodol. Mae disgwyliadau'r Awdurdod o ran y defnydd o'r Gymraeg wedi eu nodi yn y Canllawiau Iaith Rhaglenni sydd i'w cael ar safle we Cynhyrchu S4C.

Mae cylch gorchwyl statudol S4C yn cyfeirio'n benodol at 'wasanaethau rhaglenni teledu'. Mae'r Awdurdod yn awyddus i gynnal trafodaeth gyda'r Llywodraeth er mwyn trafod diweddaru dehongliad cylch gorchwyl S4C er mwyn sicrhau fod modd i S4C ddarparu 'cynnwys digidol', heb lyffethair y 'gwasanaethau teledu' presennol. Mae cylchoedd gorchwyl darlledwyr megis y BBC a Channel 4 eisoes wedi eu diweddaru er mwyn caniatáu iddynt ddatblygu gwasanaethau ym maes cynnwys digidol. Wrth ddweud hyn, mae'n bwysig nodi y bydd angen i'r Awdurdod sicrhau cydbwysedd priodol rhwng darparu gwasanaeth teledu a darparu cynnwys ar gyfer cyfryngau digidol newydd yn ogystal. Bydd ceisio'r cydbwysedd hyn yn golygu rheoli disgwyliadau nifer o garfanau diddordeb.

Er nad oes gan S4C yr hawl gyfreithiol i fabwysiadu cylch gorchwyl newydd ei hun, mae'r Awdurdod yn awyddus i sicrhau bod Cynllun Gwaith S4C ar gyfer 2012 yn cael ei weithredu gyda'r cyfryngau digidol yn ganolog i waith y Sianel, hyd y bo hynny'n bosibl yn gyfreithiol.

Swyddogaeth Awdurdod S4C yw gosod strategaeth y Sianel, a sicrhau bod Swyddogion S4C yn darparu gwasanaethau'r Sianel yn unol â'r strategaeth y mae'r Awdurdod wedi cymeradwyo. Mae'r rhaniad hwn rhwng cyfrifoldebau anweithredol yr Awdurdod, a chyfrifoldebau gweithredol Swyddogion S4C, dan arweiniad y Prif Weithredwr yn egwyddor sydd wedi'i hen sefydlu ac yn bodoli ers dechrau S4C yn 1982.

Nid yw'r Awdurdod yn ymwneud â phenderfyniadau sydd yn cael eu gwneud o ddydd i ddydd. Yn benodol, nid yw'r Awdurdod yn ymwneud ag unrhyw benderfyniadau golygyddol.

Mae'r Cynllun hwn wedi ei gymeradwyo gan Awdurdod S4C fel rhaglen waith y Sianel ar gyfer 2012. Oni nodir fel arall, Swyddogion S4C fydd yn gyfrifol am weithredu amcanion y Cynllun, a bydd yr Awdurdod yn arolygu ac yn ystyried perfformiad gwasanaethau S4C yn erbyn amcanion a thargedau'r Cynllun hwn.

1 adran 204 Deddf Cyfathrebiadau 2003 (fel yr addaswyd)

## 3. Ein gwaith ar gyfer y flwyddyn

Roedd 2011 yn flwyddyn o newid mawr i S4C, wrth i doriadau sylweddol yng nghyllideb y Sianel ddechrau brathu. Bydd 2012 hefyd yn flwyddyn o newid pellach, gyda'r gyllideb yn lleihau unwaith eto, ac amserlen newydd wedi lansio ym mis Mawrth. Mae angen hefyd i 2012 fod yn flwyddyn o ddatblygu ac edrych ymlaen at y cyfnod nesaf yn hanes y Sianel, gyda Phrif Weithredwr newydd a hon yn flwyddyn lawn gyntaf y Cadeirydd.

Ym mis Tachwedd 2012, bydd S4C yn dathlu ei phen-blwydd yn 30 oed. Byddwn yn sicrhau bod trefniadau yn eu lle er mwyn dathlu'r garreg filltir bwysig hon yn hanes y Sianel, gan edrych yn ôl ar gyfoeth 30 mlynedd o archif, ond gan edrych ymlaen yn hyderus ar yr un pryd.

Prif flaenoriaeth S4C yn ystod 2012 fydd darparu gwasanaeth o ansawdd uchel trwy gyfrwng y Gymraeg a fydd yn cyflawni amcanion S4C i'r dyfodol. Bydd cydweithio, cyfathrebu, uchelgais, hyder a beiddgarwch yn ganolog i holl waith y Sianel.

Byddwn yn rhoi'r gynulleidfa yng nghanol holl waith S4C, a gan wneud hyn fe fyddwn yn ceisio deall eu hanghenion a'u dyheadau er mwyn darparu gwasanaeth a fydd yn apelio atynt. Bydd gwaith ymchwil cynhwysfawr yn bwydo'r broses o ddod i adnabod ein cynulleidfa yn well, a byddwn hefyd yn defnyddio technegau marchnata newydd a dyfeisgar er mwyn cyfathrebu gyda'n cynulleidfa. Byddwn yn canolbwyntio'r buddsoddiad ariannol yn yr amserlen yn ystod yr oriau brig, fel y mae darlledwyr ledled y byd yn ei wneud.

Mae'r her sy'n wynebu'r Sianel yn cynnig cyfle i feddwl am ffyrdd cyffrous ac arloesol er mwyn ail-ddiffinio a datblygu'r gwasanaeth yng nghyfnod cydgyfeiriant. Wrth edrych tua'r dyfodol, bydd yn rhaid sicrhau bod S4C yn cynnig amrywiaeth o gynnwys safonol ar gyfer gwylwyr a defnyddwyr o wahanol gefndiroedd, oedrannau ac ardaloedd. Y nod fydd ymestyn apêl y gwasanaeth, ond gwneud hynny heb ddieithrio'r gynulleidfa bresennol.

Yn ystod y flwyddyn byddwn hefyd yn parhau i adeiladu ar waith diweddar o ran datblygu perthynas S4C gyda'r gynulleidfa a rhanddeiliaid pwysig gan gynnwys y cwmnïau cynhyrchu annibynnol a gwleidyddion ym Mae Caerdydd a San Steffan. Bydd datblygu partneriaethau yn rhan bwysig o waith S4C, a byddwn yn ceisio cyfleoedd newydd i greu partneriaethau go iawn gyda sefydliadau mawr a bach ledled Cymru.

Mae'r Cynllun hwn yn cynnwys prif elfennau gwaith S4C, ac nid yw'n rhestr gynhwysfawr o'r hyn y bydd yr Awdurdod a Swyddogion yn ceisio ei gyflawni yn ystod 2012. Wrth i'r flwyddyn fynd yn ei blaen byddwn yn cyhoeddi diweddariadau i'r Cynllun hwn, ac yn adrodd ar berfformiad y gwasanaeth trwy amryw o ffyrdd gan gynnwys defnydd o wefan S4C. Byddwn hefyd yn adrodd ar berfformiad y gwasanaeth yn yr Adroddiad Blynyddol, ac yn Adolygiad Datganiad Polisi Rhaglenni'r flwyddyn.

## 4. Perfformiad y gwasanaeth

Mae'n un o flaenoriaethau S4C i sicrhau bod ei gwasanaethau yn cael eu defnyddio a'u gwerthfawrogi gan gymaint â phosibl o ddefnyddwyr yng Nghymru a thu hwnt. Byddwn yn defnyddio nifer o fesuryddion safonol er mwyn asesu perfformiad y gwasanaeth gyda'r nod hwn a'r targedau isod yn ystod y flwyddyn.

Ar Fawrth 1af, lansiwyd amserlen Gweledigaeth 2012+. Bydd yr amserlen newydd yn cynrychioli'r cam nesaf yn natblygiad S4C. Byddwn yn cadw llygad ar berfformiad yr amserlen newydd er mwyn sicrhau ei fod wir yn ateb anghenion a dyheadau'r gynulleidfa. Bydd gwaith ymchwil eang, gan gynnwys ymchwil meintiol (h.y. ymchwil gyda samplau mawr) ac ansoddol (lle mae'r canlyniadau yn cael eu dadansoddi) yn cael ei gynnal, a byddwn yn ceisio ymateb i ganlyniadau'r ymchwil er mwyn mireinio'r gwasanaeth. Bydd grwpiau ffocws yn cael eu cynnal ledled Cymru er mwyn parhau i ddatblygu'n hadnabyddiaeth o'r gynulleidfa ar draws y wlad, ac er mwyn rhoi cyfle arall i wylwyr y Sianel drwy Gymru i fynegi barn am ein harlwy.

Bydd yr amserlen newydd yn ceisio ymestyn apêl gwasanaeth S4C i wylwyr newydd - yn arbennig i'r siaradwyr Cymraeg nad yw S4C yn rhan gyson o'u bywydau ar hyn o bryd tra ar yr un pryd yn ceisio parhau i ddiwallu disgwyliadau'r gynulleidfa bresennol. Mae hwn yn rhan o'r her a osodwyd i S4C gan yr Ysgrifennydd Gwladol ym mis Hydref 2010, ac eisoes mae mesur cyrhaeddiad 2011(sef y nifer o unigolion sy'n tiwnio mewn i wasanaeth S4C) wedi dangos cynnydd ar ffigyrau 2010. Rhaid nodi, fodd bynnag, y bydd yr amserlen newydd yn ceisio cyflawni'r amcan pwysig hwn gyda swm sylweddol llai o gyllid. Bydd hyn yn creu her i swyddogion S4C, ac i'r cwmnïau cynhyrchu annibynnol.

Bydd yr Awdurdod yn mesur llwyddiant ac effaith Gweledigaeth 2012+, a'i gwasanaethau, gan ddefnyddio'r meini prawf canlynol:

1. Mesur cynulleidfa;
2. Safon y rhaglenni;
3. Gwerthfawrogiad y gynulleidfa;
4. Gwerth am arian; a
5. Traweffaith ehangach at yr iaith Gymraeg, gan gynnwys yn ddiwylliannol ac economaidd.

Yn ystod y flwyddyn byddwn yn datblygu mesuryddion er mwyn asesu perfformiad gwasanaeth S4C yn erbyn y meini prawf uchod.

Byddwn yn adrodd ar berfformiad gwasanaeth S4C yn yr Adroddiad Blynyddol, a byddwn yn defnyddio cyfleoedd eraill yn ystod y flwyddyn i gyflwyno a rhannu gwybodaeth am berfformiad y gwasanaeth.

Byddwn yn rhoi nod i'r gwasanaeth i sicrhau cynnydd yn y nifer o wylwyr sy'n tiwnio i mewn i'r Sianel, ac yn ogystal, cynnydd yn y nifer sy'n defnyddio gwasanaeth y Sianel dros y flwyddyn gyfan. Bydd disgwyl i'r ffigyrau hyn, ar gyfer 'cyrhaeddiad' y gwasanaeth ar deledu ddangos cynnydd ar ffigyrau 2011. Byddwn hefyd yn anelu i sicrhau bod y nifer o Gymry Gymraeg sy'n defnyddio gwasanaethau S4C yn cynyddu yn ystod y flwyddyn.

Wrth gyflwyno a rhannu gwybodaeth, bydd yr Awdurdod yn ceisio esbonio beth yw arwyddocâd perfformiad y gwasanaeth. Fel enghraifft, gan nad yw'r corff sy'n mesur cynulleidfaoedd teledu, BARB, yn mesur cynulleidfaoedd o dan 4 mlwydd oed (sef cynulleidfa darged gwasanaeth hynod boblogaidd Cyw), byddwn yn ceisio asesu gwerth a gwerthfawrogiad Cyw trwy ddulliau amgenach na ffigyrau gwylio. Mae darlledwyr eraill hefyd yn ceisio delio gyda materion fel hyn, a byddwn yn edrych i weld os oes ymarfer da y gallwn fanteisio arno er mwyn rhannu gwybodaeth ystyrlon.

Bydd disgwyl hefyd i weld cynnydd ym mherfformiad y gwasanaethau ar-lein, gan gynnwys cynnydd yn y nifer o sesiynau gwylio ar Clic o'i gymharu â pherfformiad 2011, sef 2.5m o sesiynau gwylio.

Byddwn hefyd yn asesu cyrhaeddiad y gwasanaeth ar draws yr ystod o lwyfannau sy'n rhoi mynediad i gynnwys S4C.

Yn ogystal â sicrhau cynnydd yng nghyrhaeddiad gwasanaeth S4C, mae'n nod pwysig i S4C i sicrhau perfformiad rhaglenni unigol o fewn yr amserlen, a byddwn yn anelu i sicrhau cyrhaeddiad o dros 100,000 o wylwyr ar gyfer 80 rhaglen unigol yn ystod y flwyddyn.

Byddwn hefyd yn monitro perfformiad gwasanaeth S4C ar deledu yn ystod yr oriau brig. Wrth ystyried targed ar gyfer miloedd cyfartaledd o wylwyr yn ystod yr oriau brig, mae'n rhaid cydnabod y defnydd a wneir o'r gallu i wylio cynnwys S4C ar-alw ar wasanaeth Clic, a'r "ail gyfle i wylio" ar deledu hefyd. Mae cyfartaledd nifer y gwylwyr yn ystod yr oriau brig wedi aros yn weddol sefydlog dros gyfnod hir o flynyddoedd, gyda'r ffigwr yn amrywio rhwng 27,000 a 32,000. Byddwn yn disgwyl i'r cyfartaledd ar gyfer 2012 barhau o fewn yr ystod hon, ond gan geisio sicrhau cynnydd ar ffigwr 2011.

## 5. Barn ein gwylwyr

Mae gan gynulleidfa S4C ddisgwyliadau uchel o ran arlwy'r Sianel, ac y mae hynny'n gwbl deg ac i'w groesawu. Dyletswydd Awdurdod a Swyddogion S4C yw sicrhau bod y gynulleidfa bresennol, ac yn ogystal rheini sydd ddim ar hyn o bryd yn gwneud defnydd o wasanaethau S4C, yn cael cyfleoedd digonol i fynegi barn am wasanaethau'r Sianel.

Mae'n holl bwysig i S4C gofio o ble daeth y Sianel, a'r cyswllt cynhenid a phwysig sydd wedi bodoli, ac a ddylai fodoli rhwng y Sianel a'i gwylwyr. Bydd parhau i adfer a datblygu'r cyswllt hwn yn un o flaenoriaethau sylfaenol S4C wrth ddarparu ei gwasanaethau yn ystod 2012.

Bydd S4C yn parhau i ddatblygu ei pherthynas a'i chysylltiad â chymunedau a sefydliadau Cymru yn ystod y flwyddyn. Yn ogystal, bydd rhagor yn cael ei wneud yn ystod 2012 i ddatblygu'r berthynas gyda'r cwmnïau cynhyrchu annibynnol a chyrff cynrychioladol y diwydiant megis TAC a PACT. Bydd partneriaethau newydd hefyd yn ffordd i gynnal trafodaeth gyda'n gwylwyr, ac i ddod i ddeall mwy am eu hanghenion a'u dyheadau.

Mae gwella ein hadnabyddiaeth o'n cynulleidfa, a rhoi'r gynulleidfa yng nghanol gweithgareddau S4C am fod yn greiddiol i'n gwaith yn ystod y flwyddyn. Byddwn yn cydweithio gyda phartneriaid megis Llywodraeth Cymru, y Comisiynydd Iaith, BBC Cymru ac eraill er mwyn datblygu prosiectau a fydd yn rhoi'r cyfle i siaradwyr Cymraeg ddweud wrthym beth yw eu disgwyliadau ar gyfer y dyfodol o ran defnyddio gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg.

Yn ystod 2011 cyhoeddwyd bwriad i sefydlu panel ymgynghorol o wylwyr a fydd yn gallu rhoi eu barn am raglenni a gwasanaethau'r Sianel. Y bwriad yw defnyddio'r adborth i helpu i gynllunio a datblygu ar gyfer y dyfodol. Mae "Panel Pobl" o 100 o bobl bellach wedi ei sefydlu, a bydd S4C yn defnyddio'r panel yn gyson yn ystod 2012 er mwyn gwerthuso perfformiad ei gwasanaethau, ac yn ogystal er mwyn clywed barn y gynulleidfa am y Sianel.

Bydd Nosweithiau Gwylwyr yn dal i chwarae rhan bwysig yng ngweithgareddau cyfathrebu S4C, a bydd o leiaf pedwar cyfarfod yn cael eu cynnal mewn ardaloedd ledled Cymru er mwyn rhoi'r cyfle i wylwyr S4C ddod i fynegi barn, a holi aelodau'r Awdurdod a Swyddogion S4C am waith y Sianel.

Bydd ymgyrch Calon Cenedl yn parhau yn ystod 2012, a byddwn yn trefnu cyfresi o ddigwyddiadau mewn nifer o leoliadau ar draws Cymru er mwyn cyflwyno rhaglenni S4C i'r gynulleidfa, ac er mwyn creu rhagor o gyfleoedd i'r gynulleidfa fynegi barn a holi S4C am arlwy'r Sianel. Byddwn hefyd yn asesu perfformiad yr ymgyrchoedd hyn er mwyn sicrhau eu bod yn ateb gofynion ein cynulleidfa, ac yn cynnig gwerth am arian.

## 6. Blaenoriaethau eraill

Yn ogystal â lansio Gweledigaeth 2012+ ym mis Mawrth, bydd S4C yn rhoi sylw i ddatblygu'r meysydd canlynol yn ystod y flwyddyn:

### 6.1 Datblygu'r Bartneriaeth gyda'r BBC

Bydd 2012 yn gyfnod o newid pellach i S4C. Yn 2011, daeth S4C i gytundeb gydag Ymddiriedolaeth y BBC parthed trefniadau atebolrwydd ac ariannu S4C ar gyfer y cyfnod 2013 - 2017. [2]

Yn ystod 2012 bydd angen datblygu manylion gweithredol y bartneriaeth. Bydd DCMS yn ymgynghori ar y newidiadau deddfwriaethol sydd angen eu cyflwyno er mwyn cyflawni'r bartneriaeth newydd. Bydd cyfle hefyd i randdeiliaid a'r cyhoedd gyflwyno sylwadau am y trefniant sydd wedi ei gytuno rhwng S4C ac Ymddiriedolaeth y BBC. Mae'r Awdurdod yn credu ei fod yn bwysig i wylwyr y Sianel gael y cyfle i fynegi barn ar y bartneriaeth arfaethedig.

Bydd S4C ac Ymddiriedolaeth y BBC yn trafod Cytundeb Gweithredu ar gyfer gwireddu'r bartneriaeth newydd yn ystod y flwyddyn, a phan fyddwn wedi dod i gytundeb ar fanylion y cytundeb, bydd y partïon yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar y cytundeb.

2 s4c.co.uk/production/downloads/c_S4C_governance_position_summary.pdf

Gyda threfniant atebolrwydd ac ariannu wedi ei gytuno rhyngom, rydym yn edrych ymlaen at greu perthynas newydd gyda'r BBC. Mae'n bwysig sicrhau bod y bartneriaeth newydd rhwng S4C a'r BBC yn cael ei datblygu er mwyn sicrhau manteision i'r ddau gorff. Bydd yn bwysig i sicrhau fod y manylion gweithredol yn cydnabod annibyniaeth olygyddol a rheolaethol y ddau ddarlledwr, a bod cynlluniau effeithlonrwydd yn sicrhau gwerth am arian er budd y ddau gorff. Byddwn yn anelu i gyhoeddi rhagor o wybodaeth am y trafodaethau hyn ar y cyd gydag Ymddiriedolaeth y BBC yn ystod y flwyddyn.

Bydd swyddogion hefyd yn cynnal trafodaethau ar gydweithio gyda swyddogion y BBC, yng Nghymru ac ar lefel Brydeinig. Bydd y trafodaethau hyn yn ystyried cyfleoedd i'r ddau ddarlledwr gydweithio mewn amryw o feysydd, gan gynnwys nifer o feysydd gweithredol, yn ogystal â chyfleoedd creadigol i gyd-ddatblygu cynnwys safonol. Rydym yn edrych ymlaen at ddatblygu cyfleoedd newydd gydag un o frandiau mwyaf adnabyddus y byd darlledu.

Bydd hefyd angen sicrhau cyfnod o baratoi ar gyfer cyflwyno'r newidiadau i atebolrwydd ac ariannu S4C o fis Ebrill 2013.

### 6.2 Targedau ariannol

Bydd cyllideb S4C yn lleihau unwaith eto yn 2012. Yn 2010, £101m oedd cyfanswm grant S4C. Bydd yn lleihau o £90m yn 2011 i £83m yn 2012. Bydd hyn yn golygu bod angen gwneud rhagor o doriadau, a bydd effaith y rhain i'w gweld ar gyfundrefn S4C yn ystod y flwyddyn. Bydd hyn yn creu ansicrwydd i lawer o bobl, o fewn S4C a'r sector yn ystod y flwyddyn, a byddwn yn sicrhau y bydd cynlluniau ar gyfer unrhyw doriadau yn cael eu cyflwyno a'u gweithredu mewn modd teg a thryloyw, gan ddangos parch ac urddas i unigolion a chwmnïau.

Byddwn yn datblygu targedau ar gyfer arbedion effeithlonrwydd yn ystod y flwyddyn, a byddwn yn ceisio sicrhau y bydd yr arbedion o ran cyfundrefn S4C erbyn 2015 yn cyfateb i'r canran toriadau yn y gyllideb cynnwys dros yr un cyfnod.

Yn ogystal â thoriadau i gyllideb S4C, byddwn yn rhoi ystyriaeth bellach i argymhellion ar arloesedd ac effeithiolrwydd o fewn gweithgareddau S4C.

Byddwn yn gweithio er mwyn sicrhau gwell gwerth am arian - o ran costau cynnal S4C ei hun, ac yn ogystal o ran yr arian a fuddsoddir yng nghynnwys gwasanaethau S4C yn y sector gynhyrchu. Bydd Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg Awdurdod S4C yn gyfrifol am raglen o waith archwilio ym maes gwerth am arian.

Ar gyfer cyllideb 2012, byddwn yn sicrhau y bydd £67m yn cael ei neilltuo i'r gyllideb cynnwys. Byddwn yn parhau i gynllunio cyllideb S4C ar gyfer y blynyddoedd nesaf, gan baratoi cynllun ariannol ar gyfer 2013, a pharhau i gynllunio, hyd y gallwn, ar gyfer y cyfnod 2013-17.

### 6.3 Perthynas gyda'r sector gynhyrchu

Bydd parhau i ddatblygu'r berthynas gyda'r sector gynhyrchu yn flaenoriaeth ar gyfer 2012. Byddwn yn trafod gyda TAC a PACT sut i wneud hyn. Bydd datblygu'r bartneriaeth greadigol gyda'r cwmnïau cynhyrchu yn bwysig yn 2012, a bydd y Prif Weithredwr, a staff eraill S4C yn parhau i ymweld â chwmnïau ledled Cymru yn ystod y flwyddyn.

Byddwn yn adolygu'r Cod Ymarfer a'r Telerau Masnach yn ystod y flwyddyn er mwyn sicrhau eu bod yn addas ar gyfer anghenion S4C a'r cynhyrchwyr.

Bydd sgiliau yn parhau i fod yn flaenoriaeth i S4C, a byddwn yn cydweithredu gyda chyrff gan gynnwys Skillset, Cyfle, TAC, PACT, y cwmnïau cynhyrchu annibynnol, Llywodraeth Cymru ac eraill er mwyn gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth hyfforddiant o fewn y sector yng Nghymru yn cynnig cyrsiau perthnasol, ledled Cymru, ac yn gwneud hynny mewn modd sy'n sicrhau y gwerth gorau am arian.

Bydd buddsoddiad sylweddol S4C yng ngweithgareddau hyfforddi Skillset yn parhau yn ystod y flwyddyn. Mae'r arian hwn, sy'n gyfanswm o £300,000 oddi wrth S4C yn cael ei baru gydag arian cyffelyb o gronfeydd eraill, gan gynnwys cronfeydd Ewropeaidd, ac y mae buddsoddiad gwreiddiol S4C yn sail i fuddsoddiad cyfansawdd sylweddol.

### 6.4 Digidol a chyfryngau newydd

Mae'r Awdurdod wedi cynnal ymgynghoriad ar Adroddiad y Fforwm Cyfryngau Newydd (a sefydlwyd gan yr Awdurdod yn 2011), a bydd yn ystyried argymhellion y Fforwm a'r ymatebion i'r ymgynghoriad er mwyn llunio strategaeth ar gyfer ymwneud S4C ym maes y cyfryngau digidol. Bydd hefyd yn ystyried yr angen am gyngor arbenigol yn y maes, ac felly ddyfodol y Fforwm presennol.

Mae'r Fforwm wedi argymell i S4C fabwysiadu cyfres o werthoedd craidd newydd i adlewyrchu pwysigrwydd y cyfryngau digidol newydd. Gellir darllen mwy am argymhellion y Fforwm ar safle we S4C http://www.s4c.co.uk/cyfryngaunewydd

Bydd Awdurdod S4C yn rhoi ystyriaeth i'r argymhellion hyn wrth ystyried Adroddiad y Fforwm, ac yn dilyn hynny yn ceisio cynnal trafodaeth gyda'r Llywodraeth er mwyn diweddaru dehongliad cylch gorchwyl S4C fel bod modd i S4C ddarparu 'cynnwys digidol' yn ogystal â'r gwasanaeth teledu.

Yn ystod 2012, bydd S4C yn mynd ati o fewn ei remit bresennol i gomisiynu cynnwys digidol, ac yn ogystal bydd yn datblygu cynlluniau i geisio sicrhau y bydd cynnwys S4C ar gael ar blatfformau ychwanegol, gan gynnwys dyfeisiau Android, a gwasanaethau megis YouTube.

Bydd canllawiau yn cael eu llunio ar gyfer y Gronfa Ddigidol sydd wedi ei gyhoeddi gan yr Awdurdod. Bydd angen sicrhau bod unrhyw fuddsoddiad newydd mewn cynnwys digidol yn ychwanegu gwerth i ddarpariaeth bresennol S4C, a'i fod yn gydnaws gydag anghenion a dyheadau'r gynulleidfa.

### 6.5 Masnachol

Bydd is-gwmnïau masnachol S4C yn parhau i geisio denu incwm ychwanegol er mwyn i S4C ei fuddsoddi mewn cynnwys gwreiddiol ar gyfer gwasanaethau S4C yn ystod y flwyddyn.

Byddwn yn parhau i werthu hysbysebion a chyfleoedd nawdd, gosod cynnyrch a telewerthu, a byddwn yn datblygu'r berthynas gyda'r asiantaeth gwerthu sydd wedi ei benodi yn ddiweddar yn dilyn tendr agored. Rydym yn anelu i gynyddu'r incwm o gyfleoedd aml-blatfform a chynyddu nifer yr hysbysebion yn Gymraeg a chan gwmnïau o Gymru.

Byddwn yn cydweithio gyda'r cwmnïau cynhyrchu, a rhanddeiliaid eraill er mwyn sicrhau ein bod yn manteisio ar gyfleoedd masnachol a bod S4C a'i phartneriaid yn gallu elwa o'r cyfleoedd hyn. Lle yn addas, byddwn yn ceisio gweithio mewn partneriaeth gydag eraill i ddatblygu cyfleoedd masnachol.

Byddwn yn parhau i fuddsoddi o'r Gronfa Gyd-gynhyrchu, er mwyn hybu gweithgaredd cyd-gynhyrchu gan gwmnïau annibynnol.

Bydd rhagor o wybodaeth am waith yr is-gwmnïau yn cael ei gyhoeddi ar wefan S4C.

## 7. Cyflawni targedau Ofcom ac Awdurdod S4C

Byddwn yn sicrhau bod gwasanaethau S4C yn cydymffurfio gyda'r codau a rheoliadau perthnasol, gan gynnwys y rheini a gyhoeddir gan Ofcom, ATVOD ac Awdurdod S4C.

Bydd gwasanaethau S4C hefyd yn cydymffurfio gyda thargedau perthnasol y cyrff hyn.

### 7.1 Targedau rhaglenni Ofcom

(i) O leiaf 25% o amser darlledu i'w roi i gynyrchiadau o'r sector annibynnol.
(i) 90% o Raglenni gwreiddiol [3] (oriau brig [4]).
(ii) 80% o Raglenni gwreiddiol (holl oriau).
(iii) 60 awr y flwyddyn o Raglenni Materion Cyfoes (holl oriau).
(iv) 30 awr y flwyddyn o Raglenni Materion Cyfoes (oriau brig).
(v) 200 awr y flwyddyn o Raglenni Newyddion (holl oriau).
(vi) 150 awr y flwyddyn o Raglenni Newyddion (oriau brig).
(vii) Un Rhaglen Newyddion ddyddiol yn ystod yr oriau brig.

### 7.2 Targedau gwasanaethau mynediad Ofcom

Mae gan S4C ymrwymiad i geisio sicrhau ei bod mor hawdd â phosib i bawb gael mynediad i'w gwasanaethau er mwyn i gynnwys S4C fod yn rhan o fywydau cynifer â phosibl o bobl bob wythnos. "Gwasanaethau mynediad" yw'r term cyffredinol a ddefnyddir i ddisgrifio'r ystod o wasanaethau a thechnegau sydd ar waith i ganiatáu i hyn ddigwydd, gan gynnwys is-deitlo, traciau sain ychwanegol ac arwyddo.

Byddwn yn sicrhau bod darpariaeth gwasanaethau mynediad yn parhau, a byddwn yn adolygu ein darpariaeth yn ystod y flwyddyn yng ngoleuni datblygiadau technolegol a chyllidol.

Mae sicrhau fod gan ein gwylwyr y gallu i gyfathrebu yn hwylus gydag S4C hefyd yn bwysig, a byddwn yn sicrhau fod gwasanaeth Gwifren Gwylwyr yn hygyrch i ddefnyddwyr.

Byddwn yn cydymffurfio gyda thargedau perthnasol Ofcom ar gyfer darparu'r gwasanaethau hyn.

Isdeitlo 80% o'r holl oriau
Arwyddo 5% o'r holl oriau
Sain ddisgrifio 10% o'r holl oriau.

### 8. Barn ein gwylwyr

Mae S4C wastad yn falch i glywed barn ein gwylwyr.

Os ydych yn dymuno cyflwyno eich barn am ein rhaglenni, neu am berfformiad gwasanaethau S4C gyda'r Cynllun Gwaith hwn, neu os ydych eisiau gwybodaeth bellach, fe fyddem yn falch i glywed gennych.

Fe allwch gysylltu ag S4C dros y ffôn, drwy ebost, twitter, facebook neu drwy lythyr.

s4c.co.uk
@s4carlein
s4c@s4c.co.uk

Rhif ffôn Gwifren 0870 600 4141
Rhif ffôn swyddfa Caerdydd 02920 747 444
Rhif ffôn swyddfa Caernarfon 01286 674 622

| | |
|---|---|
| S4C | S4C |
| Parc Tŷ Glas | Doc Fictoria |
| Llanisien | Caernarfon |
| Caerdydd | Gwynedd |
| CF14 5DU | LL55 1TH |

3. Gwreiddiol = Rhaglenni a gomisiynir gan neu a gynhyrchir ar gyfer S4C ag yn waith Ewropeaidd (directive AVMS), boed yn ddarllediadau gwreiddiol neu yn ail ddangosiadau. Mae'r cyfanswm yn cynnwys yr oriau a gynhyrchir gan y BBC.
4. (Oriau Brig fel y diffinnir gan Ofcom= 6.00 – 10.30)